# Ymchwilio'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer gwaith yn y diwydiannau creadigol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud ag ymchwilio'r wybodaeth sydd ei hangen er mwyn cyflawni eich gwaith ymhellach. Mae'n ymwneud â chynllunio a threfnu'r ymchwil i fodloni'r terfynau amser dan sylw.

Mae hefyd gofyn i chi nodi ffynonellau, casglu a dehongli deunydd neu wybodaeth sy'n berthnasol i'r briff a defnyddio canfyddiadau eich ymchwil i lywio eich gwaith.

Gellir defnyddio'r safon hon ynghlwm â phob rôl yn y diwydiannau sgrin ac mae hefyd yn berthnasol i rolau diwydiant creadigol ehangach fel enghraifft theatr, digwyddiadau byw, treftadaeth ddiwylliannol a galwedigaethau dylunio.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cadarnhau’r amcanion penodol ar gyfer yr ymchwil
2. cadarnhau’r amseriad a’r ffurf derfynol ar gyfer yr ymchwil
3. cynllunio beth sydd ei angen arnoch a threfnu’ch ymchwil i sicrhau eich bod yn cyflawni’r gwaith yn brydlon
4. nodi’r ffynonellau a’r technegau ymchwil i’w defnyddio
5. cyfarwyddo unrhyw gynorthwywyr ar eu rôl sydd ynghlwm â’r gwaith ymchwil
6. nodi a yw’r deunydd presennol yn berthnasol ac yn gyfredol
7. casglu a dehongli’r canfyddiadau wrth ichi eu canfod
8. adnabod unrhyw ddiffygion a’r ffynonellau gwybodaeth y dylech chi eu defnyddio i’w bodloni
9. gwirio bod yr wybodaeth rydych chi’n dymuno’i defnyddio ar gael a bod hawl cyfreithiol gennych chi i’w defnyddio
10. casglu’r set derfynol o ganfyddiadau ac asesu pa wybodaeth sy’n bodloni’r amcanion ymchwil
11. paratoi’r canfyddiadau mewn ffordd sy’n mynd i’r afael â’r holl amcanion
12. cyflwyno’r deunydd ymchwil ar y ffurf briodol ar gyfer y defnydd a fwriedir
13. cofnodi’r holl ffynonellau gwybodaeth a chadw hyn ar y cyd â chanlyniadau eich ymchwil
14. cadw gwybodaeth sensitif yn gyfrinachol yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
15. cadarnhau bod eich canfyddiadau a’ch casgliadau yn diwallu anghenion y briff ymchwil
16. asesu a fydd ymchwil neu ddatblygiad dilynol gan eraill yn golygu bod eich canfyddiadau chi’n anghyfredol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. cwmpas yr ymchwil y mae gofyn i chi ei gyflawni
2. yr amser y mae angen i chi ei gwblhau erbyn
3. dyfnder y wybodaeth sydd ei angen a sut mae'n berthnasol i'r darlun mwy
4. y technegau ymchwil i gynllunio a threfnu'r broses
5. y prif ffynonellau gwybodaeth
6. goblygiadau ac effeithiau hawlfraint, cymeradwyaeth a hawliau i ddefnyddio gwybodaeth ar yr ymchwil
7. y ffyrdd o ddefnyddio'r ffynonellau gwybodaeth
8. y prif gysylltiadau a'r ffynonellau gwybodaeth a'r datblygiadau yn y maes caiff ei ymchwilio
9. y dulliau o gasglu a dehongli gwybodaeth
10. y technegau ar gyfer cyflwyno'r wybodaeth
11. pryd mae'n bwysig bwrw golwg arall ar ymchwil er mwyn sicrhau nad yw'r ymchwil dilynol yn golygu bod eich canfyddiadau chi'n anghyfredol
12. goblygiadau'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau cyfredol sy'n ymdrin â diogelu data
13. y gweithdrefnau sefydliadol a'r llinellau amser ar gyfer trin data a dileu data, cofnodion neu wybodaeth

SKSCMGS13

Ymchwilio’r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer gwaith yn y diwydiannau creadigol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Fersiwn rhif** | 3 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Maw 2024 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2027 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | ScreenSkills |
| **RCU gwreiddiol** | SKSGS13 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Y Cyfryngau a Chyhoeddi, Gweithwyr Proffesiynol Cynhyrchu Sain (Ffilm a Theledu), Gweithwyr proffesiynol ôl-gynhyrchu, Y Celfyddydau, Gweithwyr Proffesiynol Animeiddio, Y Cyfryngau a chyfathrebu, Y Celfyddydau Perfformio, Gweithwyr Proffesiynol Cyswllt y Cyfryngau, Gweithwyr Proffesiynol Gemau, Gweithwyr Proffesiynol Cyfryngau Rhyngweithiol, Galwedigaethau Marchnata Digidol, Gweithwyr Proffesiynol Cyswllt Marchnata, Gweithwyr Proffesiynol Cyswllt Dylunio;, Gwasanaethau Technegol a Dosbarthu (Ffilm a Theledu), Gweithwyr Proffesiynol Effeithiau Arbennig Corfforol, Rolau Cymorth Technegol ar gyfer Recordio Sain a Thechnoleg Cerddoriaeth |
| **Cyfres/Set** | Sgiliau Cyffredinol y Cyfryngau Creadigol |
| **Geiriau Allweddol** | ymchwil; cwmpas; amcanion; graddfeydd amser; canfyddiadau; cyfrinachedd; gwybodaeth; casgliadau; ffynonellau; diwydiannau creadigol; |